HSC(6)-20-23 PTN 13

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Elinor Puzey
Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal
Creulondeb i Blant (NSPCC)

13 Ebrill 2023

Annwyl Elinor,

Awgrymu ymchwiliad gan y Pwyllgor i'r cysylltiad rhwng tlodi a chysylltiad â gofal cymdeithasol

Diolch am eich llythyr at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch ymchwiliad posibl i'r berthynas rhwng tlodi a chysylltiad plant â gofal cymdeithasol yng Nghymru. Cafodd ei nodi yn ein cyfarfod ar 27 Mawrth 2023. Diolch i chi am dynnu sylw at y gwaith ymchwil gan Paul Bywaters a chydweithwyr ynglŷn â'r angen i ofal cymdeithasol fynd i'r afael â'r trallod economaidd sylfaenol a achosir gan yr argyfwng costau byw, yn erbyn cefndir o gyni cyllidol a'r cyfnod wedi'r y pandemig, sy'n cynyddu cyfraddau atgyfeirio at wasanaethau cymdeithasol oherwydd esgeuluso a cham-drin plant.

Mae pwyllgorau'r Senedd fel arfer yn trefnu eu gwaith fisoedd lawer ymlaen llaw. Ar hyn o bryd, nid oes gennym gynlluniau penodol ar gyfer gwaith ynghylch tlodi plant, ond dyma yw un o'r meysydd blaenoriaeth posibl y byddwn yn eu trafod fel rhan o'n gwaith yn y dyfodol.

Mae diweddariadau ar ein blaenraglen waith ar gael ar ein gwefan, ac os bydd amserlen y Pwyllgor yn y dyfodol yn caniatáu ymchwiliad penodol i'r pwnc pwysig hwn neu bwnc tebyg, byddwn yn ysgrifennu atoch i'ch gwahodd i gyflwyno tystiolaeth. O ystyried ei berthnasedd i'w cylchoedd gwaith, rydym hefyd wedi rhannu eich llythyr gyda'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol er gwybodaeth. Rwy'n siŵr y byddant yn eich hysbysu yn yr un modd am unrhyw waith perthnasol y gallent fod yn ei wneud.

Yn gywir,

Jenny Rathbone AS

cc Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.